CARERS TRUST



# Swyddog Polisi ac Ymarfer

## Cymru

CARERS TRUST

# Swyddog Rhaglen Gweld Fi

## Cymru

**Contract:** Contract cyfnod penodol (2.5 mlynedd)
**Oriau:** Rhan-amser, 0.8FTE, 28 awr yr wythnos.
**Salary:** £25,000 - £28,000 (pro rata from £31,250 - £35,000)
**Location:** Hybrid, wedi'i angori i Swyddfa Caerdydd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru gyda gofyniad i weithio un diwrnod yr wythnos yn y swyddfa. Hyblygrwydd i weithio o swyddfeydd eraill Ymddiriedolaeth Gofalwyr ledled y DU pan fo angen.
**Arall:** Bydd angen i ddeiliad y swydd allu teithio mewn modd amserol a chost-effeithiol i gyfarfodydd ledled Cymru ac weithiau ledled y DU ar gyfer cyfarfodydd perthnasol Ymddiriedolaeth Gofalwyr. Efallai y bydd angen gweithio gyda'r nos neu benwythnosau yn achlysurol i fynychu digwyddiadau neu ymgynghoriadau.

## Pam mae'r rôl hon yn allweddol i Ymddiriedolaeth Gofalwyr

Bydd y Swyddog Polisi ac Ymarfer yn cydweithio â rhanddeiliaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a thîm Ymddiriedolaeth Gofalwyr i arwain y gwaith o gyflwyno rhaglen tair blynedd sy'n canolbwyntio ar wella cefnogaeth i ofalwyr hŷn pobl sy'n byw gyda dementia. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â Grwpiau Strategaeth Dementia rhanbarthol, dylanwadu ar bolisi cenedlaethol, a hwyluso cyfnewid gwybodaeth ar draws sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol, a'r trydydd sector.

Mae'r rôl hon yn ganolog i hyrwyddo ein cenhadaeth drwy godi lleisiau gofalwyr di-dâl, sicrhau bod eu profiadau'n llunio polisi ac arfer, a chryfhau gwelededd a hygyrchedd gwasanaethau cymorth i ofalwyr ledled Cymru. Drwy ymgorffori Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru mewn sgyrsiau strategol a hyrwyddo arfer da, bydd deiliad y swydd yn helpu i yrru newid ystyrlon i ofalwyr pobl â dementia—nifer ohonynt yn hŷn, yn ynysig, a ddim yn cael eu cydnabod. Bydd y gwaith yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygiad Strategaeth Dementia Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau bod anghenion gofalwyr yn cael eu hadlewyrchu wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

## Yn y rôl hon byddwch yn

- Meithrin perthnasoedd â'r saith Grŵp Strategaeth Dementia rhanbarthol a chymryd rhan weithredol yn eu cyfarfodydd a'u mentrau.
- Cyfrannu at ddatblygu ac adolygiad Cynllun Gweithredu Dementia Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod safbwyntiau gofalwyr yn cael eu cynnwys.
- Trefnu a chynnal digwyddiadau rhannu arferion ar-lein blynyddol, gan ddod â rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru ynghyd.

CARERS TRUST

# Prif gyfrifoldebau
## *(nid rhestr gynhwysfawr yw hon)*

- Cydlynu lledaeniad llyfrynnau gofalwyr dementia i glinigau a chanolfannau cof ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.
- Meithrin perthnasoedd â'r saith Grŵp Strategaeth Dementia rhanbarthol a chymryd rhan weithredol yn eu cyfarfodydd a'u mentrau.
- Cynrychioli Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a'i Rhwydwaith ar olynydd y Grŵp Goruchwylio a Gweithredu Dementia cenedlaethol.
- Cyfrannu at ddatblygu ac adolygiad Cynllun Gweithredu Dementia Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod safbwyntiau gofalwyr yn cael eu cynnwys.
- Hwyluso gweithgareddau codi ymwybyddiaeth i amlygu anghenion a phrofiadau gofalwyr hŷn.
- Trefnu a chynnal digwyddiadau rhannu arferion ar-lein blynyddol, gan ddod â rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru ynghyd.
- Cryfhau ymgysylltiad â chlinigau a chanolfannau cof i wella llwybrau cyfeirio ac atgyfeirio at wasanaethau cymorth i ofalwyr.
- Cynllunio a chyflwyno dau ddigwyddiad wyneb yn wyneb yn y drydedd flwyddyn i arddangos arfer da a chodi lleisiau gofalwyr.
- Cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig terfynol sy'n cofnodi canlyniadau, dysgu, ac argymhellion o’r rhaglen.
- Lansio'r adroddiad drwy weminar ar-lein a rhannu canfyddiadau gyda grwpiau dementia cenedlaethol a rhanbarthol.

# Ein hymgeisydd delfrydol

- Profiad profedig o reoli prosiectau neu raglenni mewn lleoliad sy'n canolbwyntio ar dîm.
- Sgiliau trefnu cryf a'r gallu i reoli blaenoriaethau cystadleuol, waeth beth fo'r diwydiant rydych chi wedi gweithio ynddo.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, gyda'r gallu i feithrin perthnasoedd ac ymgysylltu â randdeiliaid ar draws sectorau.
- Profiad o hwyluso digwyddiadau, gweithdai, neu weithgareddau rhannu gwybodaeth.
- Profiad o ddatblygu polisïau neu ddylanwadu ar waith, yn enwedig ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, neu'r trydydd sector.
- Gwybodaeth am dirwedd polisi iechyd a gofal cymdeithasol Cymru.
- Dealltwriaeth o'r heriau y mae gofalwyr di-dâl yn eu hwynebu, yn enwedig y rhai sy'n cefnogi pobl â dementia.
- Y gallu i weithio'n annibynnol a dangos blaengaredd mewn amgylchedd gweithio o bell.
- Yn gyfforddus yn defnyddio offer digidol i drefnu cyfarfodydd, rhannu adnoddau, a chynnal digwyddiadau ar-lein.
- Bydd sgiliau fel cydlynu prosiectau, a enillir trwy rolau proffesiynol, gwirfoddoli, neu gyfrifoldebau eraill, yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.
- Mae sgiliau iaith Gymraeg (llafar a/neu ysgrifenedig) yn ddymunol ond nid yn hanfodol.

CARERS TRUST

# Sut i wneud cais

Mae ceisiadau i'w cyflwyno trwy borth recriwtio Ymddiriedolaeth Gofalwyr, uwchlwythwch eich CV a datganiad ategol yn nodi sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer y rôl hon.

Rydym yn hapus i ddarparu ar gyfer unrhyw addasiadau a allai fod gennych a byddwn yn rhannu pob cwestiwn cyfweliad ymlaen llaw fel rhan o'n hymrwymiad i recriwtio cynhwysol. Am sgwrs anffurfiol neu o soes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl cysylltwch â recruitment@caers.org

- **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** Dydd Llun 24 Awst 2026
- **Dyddiad disgwyliedig y cyfweliad:** Dydd Iau 3 Medi 2026


YMDDIRIEDOLAETH
GOFALWYR
CYMRU